CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **Nos Lun 14eg o Fehefin 2021 am 6.30y.h.** trwy Gyfrwng TEAMS.

YN BRESENNOL : Cyng. Margaret A. Thomas - Cadeirydd
Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Terry Jones
Cyng. Gwenan Ll. Evans
Cyng. John Lee
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Richard Parry – *Cael trafferth cysylltu i'r Linc TEAMS*
Cyng. Non W. Parry.

HEFYD YN BRESENNOL : Cyng. Dylan W. Rees - Cynghorydd Sir
Mr. H. Rhys Parry - Clerc
Ms. Linda Powell - Cymhorthydd Clerigol.

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod

21/032 **YMDDIHEURIADAU :** Dim

21/033 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :** Dim

21/034 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU :** Dim Cynrychiolydd : PCSO Lee Monk ddim ar ddyletswydd heno.

21/035 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 10.05.2021**
Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim ymholiadau/cwestiynau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. Victor Hughes yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

21/036 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 10.05.2021**
Cadeirydd yn datgan, os bu unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu drwy'r Swyddfa, o flaen llaw, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS. Clerc yn datgan fod dim ymholiadau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa.

1 **C.C.T.V.** Cyng. Non Parry yn tynnu sylw at Eitem 21/009.2(b) o'r Cofnodion ac yn holi os bu unrhyw ddigwyddiad arall yn ymwneud a difrod i'r Wifren CCTV ar Adeilad y Cyngor Tref. Cadeirydd yn ymateb fod dim digwyddiad ers hyn a buasai yn gostus iawn i osod Camerâu CCTV ar yr Adeilad.

2 **Ardal Nant y Pandy/Dingle –** Cyng. Dylan Rees yn cadarnhau fod y llwybrau o gwmpas yr ardaloedd uchod wedi eu hail-agor yn ei chyfanrwydd.

21/037 CYNLLUNIO

1 I DDERBYN PENDERFYNIADAU AELODAU'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO AR YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO MIS MAI 2021

Cadeirydd yn cadarnhau fod penderfyniadau Aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio yn cael eu hanfon ymlaen i Gyngor Sir Ynys Môn yn rheolaeth**.** **Derbyn.**

2 Datblygiad Safle Tŷ Hen - Ymgynghoriad Cyn-Cais Cynllunio

Aelodau wedi derbyn y dogfennau uchod yn Becyn Rhaglen Llawn y Cyfarfod yma. Cafwyd trafodaeth ar y Cais uchod gydag Aelodau yn datgan fod angen mwy o Ymgynghoriad oherwydd maint y datblygiad. Tynnwyd sylw at y canlynol :

- Datblygiad yn llawer mwy na'r Cais cyntaf yn ymddangos a'r bwriad o fudd i'r Gymuned;
- Sicrhau bod mynediad o ffordd Rhostrehwfa ac nid Maes Derwydd i osgoi problemau traffig;
- Oherwydd maint o dai yn cael eu hadeiladu, pwysig fod Maes Chwarae i blant yn rhan o'r cynllun;
- Croesfan Cerddwyr;

Yn dilyn yr uchod, Cadeirydd yn cadarnhau, ar hyn o bryd, mai Cais Cynllunio Amlinellu, sydd mewn lle. Cyng. Huw Owen yn datgan fod gor-ddatblygiad yn Llangefni a bod yn bwysig cadw golwg ar y Cais yma. Aelodau yn cytuno gyda'r pryderon uchod ac yn gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Adran Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn i ddod a hyn i'w sylw. **Derbyn.**

21/038 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBON GAN Y MAER

1 Ymweliad Answyddogol gan Virginia Crosbie AS - 03.06.2021 - Cadeirydd yn adrodd ei bod wedi cwrdd â Virginia Crosbie yn Swyddfeydd y Cyngor Tref lle bu'r AS ddatgan fod Cyllideb ar gael i Fudiadau Gwirfoddol ar Ynys Môn. Cadeirydd wedi awgrymu Mudiadau Lleol i'r AS gynnig cefnogaeth, bydd hi rŵan yn dilyn i fynnu ar y cysylltiadau o unrhyw Fudiad sydd yn deilwng.
AS hefyd yn rhoi gwybod bod buddsoddiad o £50,000.00 mewn lle i edrych ar ail-agor y Rheilffordd i Amlwch. Dim Trafodaeth.

21/039 MATERION YN CODI GAN AELODAU

Clerc yn cadarnhau fod dim materion wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa.

21/040 ADRODDIAD Y CLERC

Clerc yn adrodd ar y canlynol :

1 Mynwent Newydd – Pryniant Tir Penlan – Cwmni Cemetery Development Solutions yn ymweld â'r tir ar 2ail o Orffennaf 2021 i gyflawni profion dyfnder y tir a thyllau turio. Yn dilyn hyn bydd Adroddiad yn cael ei pharatoi gan Arbenigwyr Cwmni CDS yn cynghori'r Cyngor Tref ar y lleoliad mwyaf addas ar gyfer datblygu'r Fynwent Newydd.
Yn y cyfamser bydd gweddill y tir yn cael ei osod allan fel tir ar gyfer torri gwair Dyddiad Cau'r Tenders ar gyfer hyn ydyw 1.00y.p. Dydd Gwener 18fed o Fehefin 2021. **Derbyn.**

2 (a) Safle'r Orsedd, Ger Home Bargains - Cyfarfod o Swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ei drefnu ar gyfer 24ain o Fehefin 2021 pan fu trosglwyddo Safle'r Orsedd i'r Cyngor Tref yn cael ei drafod. Gobeithio, yn dilyn y cyfarfod, bydd cytundeb mewn lle i roi Les 10 mlynedd ar gyfer y tir i'r Cyngor Tref. **Derbyn.**

PARHAD 21/040

(b) Rhosmeirch - Cysgodfan Bws - Aelodau wedi derbyn copi o'r ohebiaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn dyddiedig 24.05.2021, yn cynnig cyllideb i osod Cysgodfan Bws ar y palmant ger y briffordd B5111. Clerc yn adrodd fod y Cyngor Sir yn gofyn i'r Cyngor Tref fabwysiadu a chymryd gofal o'r Cysgodfan am y dyfodol, fel y drefn yn dref Llangefni. Cafwyd trafodaeth ar yr uchod gyda mewnbwn gan Cyng. Victor Hughes yn holi am y gost ychwanegol o gynnal a chadw i'r Cyngor Tref a hefyd faint o ddefnydd fuasai yn cael ei wneud o'r Cysgodfan.
Cyng. Non Parry yn awgrymu buasai gosod y Cysgodfan yn agosach at y Fynwent Newydd yn fwy o fudd i'r trigolion. Aelodau o'r farn bod angen mwy o wybodaeth ynglŷn â chostau rhedeg blynyddol cyn gwneud penderfyniad terfynol. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc ymateb i gynnig Cyngor Sir Ynys Môn, yn unol â'r uchod.

(c) Safle Cae Criced - Cyfreithiwr yr Ymddiriedolwr am gysylltu gyda Bargyfreithiwr i dderbyn cyngor i symud ymlaen i drosglwyddo'r safle i'r Cyngor Tref. Yn dilyn hyn, bydd fersiwn Drafft o'r ddogfen yn cael ei rannu gyda Chyfreithiwr y Cyngor Tref. Gan fod hyn ddim wedi digwydd, bydd y Cadeirydd yn cysylltu gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr i roi pwysa arno i ddod a'r mater i ben. **Derbyn.**

21/041 ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL

Cyfarfod Cyngor Coleg Llangefni - Grŵp Llandrillo Menai - 20.05.2021 - Cyng. Richard Parry ydyw cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Grŵp.

21/042 CYLLID

1 I Dderbyn Mantolen Ariannol – Mis Mai 2021

Cadeirydd yn adrodd, os bu unrhyw gwestiynau yn codi o'r Fantolen Ariannol uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS. Clerc yn cadarnhau fod dim ymholiadau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa. Yn dilyn yr uchod, Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. Ieuan G. Davies yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol.
PENDERFYNWYD derbyn Mantolen Ariannol Mis Mai 2021.

21/043 ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cynghorydd Sir Dylan W. Rees yn adrodd ar y canlynol :

- Ysgol Corn Hir - Torri tywyrch cyntaf Dydd Gwener 11eg o Fehefin 2021 a gwaith datblygu'r Ysgol Newydd wedi cychwyn;
- Cyngor Sir Ynys Môn yn paratoi Cytundeb Newydd i ostyng cost prydau bwyd Ysgolion o £2.50 i £2.20;
- Cyngor Sir Ynys Mon yn buddsoddi wrth ehangu Parc Busnes Bryn Cefni ar gyfer llogi ystafelloedd;
- Ffactori Caws ym Mona yn creu 100 o swyddi newydd;
- Cylchfan "Four Crosses", Porthaethwy/Lon Penmynydd - Gwaith priffyrdd angenrheidiol yn mynd ymlaen am ddwy noson;
- Er gwybodaeth – Cwyn wedi ei dderbyn yn ymwneud a Llwybr Cyhoeddus yn ardal Rhosmeirch – mae'r mater yma yn derbyn sylw.

21/044 GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD

1 Ysgol Gyfun Llangefni – Ardaloedd Gwyrdd – Llythyr 26.05.2021

Aelodau wedi derbyn copi o ymateb Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni ynglŷn â'r uchod. Cyng. Ieuan Davies yn diolch i staff Swyddfa'r Cyngor Tref am gysylltu gyda'r Pennaeth

PARHAD 21/045

a Llywodraethwyr yr Ysgol, i ddatgan pryder trigolion fod y ffens o gwmpas yr Ysgol yn cyfyngu defnydd o'r ardaloedd gwyrdd. Cyng. Davies yn awyddus i ddilyn i fynnu ar yr brosiect o gael gardd gymunedol yn yr ardal yma, fel y soniwyd yn llythyr Pennaeth yr Ysgol. **Derbyn.**

2 **Llythyr Virginia Crosbie AS 05.05.2120 – Darpariaeth Band Eang ar Ynys Môn**
Aelodau wedi derbyn copi o'r llythyr yn Becyn Rhaglen Llawn 14.06.2021 – Dim trafodaeth.

3 **Cyfraniadau 2020/2021 -** Llythyrau o ddiolch wedi eu derbyn gan Orsaf Môn FM ac Ambiwlans Awyr Cymru.

21/045 **GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH – Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Mai 2021**

1 **Un Llais Cymru - Derbyn**

2 **Materion Eraill - Derbyn**

21/046 **I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER**

1 **Staffio a Safonau -** Cadeirydd yn adrodd fod un cais wedi ei dderbyn i gyflogi Tirmon ychwanegol. Gan fod yr ymgeisydd yn brofiadol ac yn gyfarwydd gyda'r math yma o waith, cynigwyd y swydd iddo. Yn dilyn derbyn y swydd bydd yn cychwyn Dydd Llun 21ain o Fehefin 2021. **Derbyn.**

2 **Safle Penlan, Rhosmeirch - Mynwent Newydd -** Cyng. Victor Hughes, fel Cadeirydd Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae, yn awyddus i'r holl Aelodau gael cyfle i ymweld â'r safle a mynegi eu barn ar y llecyn mwyaf delfrydol i ddatblygu'r Fynwent. Cyng. Hughes yn adrodd ymhellach fod dau opsiwn, sef :

- Y tir gyferbyn ac Oriel Môn gyda maes parcio hwylus a hefyd lle bwyta;
- Hefyd, Tir ar ben yr allt ger priffordd B5111 o dan ystyriaeth.

Cyng. J. Egryn Lewis yn cefnogi Cyng. Hughes i gael ymweliad safle fel mater o frys.

Mewnbwn gan y Clerc a Chadeirydd yn cadarnhau fod Arbenigwyr o Gwmni Cemetery Development Solutions wedi ei benodi i ymweld â'r safle dechrau Mis Gorffennaf i gyflawni prifion tyllau turio. Yn dilyn arweiniad a barn Gwmni CDS o'r tir delfrydol, bydd yr Aelodau mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ar y lleoliad.

Yn dilyn yr uchod, Clerc yn awgrymu cyfarfod ar y safle a cherdded o amgylch y tir, bore Dydd Iau 17eg o Fehefin 2021 am 11.00y.b.
PENDERFYNWYD symud ymlaen yn unol â'r uchod.

21/047 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – Nos Lun 12fed o Orffennaf 2021 trwy Gyfrwng TEAMS.**

CYNG. MARGARET ANN THOMAS
CADEIRYDD

Diwedd y Cyfarfod 7.15y.h.